# Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

# SoNaRR2020 Cofrestr ffiniau arfordirol pwysau a chyfleoedd allweddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

# Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

# Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith tystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein tystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 Cofrestr ffiniau arfordirol pwysau a chyfleoedd allweddol**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

# Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae’r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

**Crynodeb Gweithredol.** Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

**Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol.** Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

**Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwyliedig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

**Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

**Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol**. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

**Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Acronymau a Rhestr Termau.** Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

**Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 Cofrestr ffiniau arfordirol pwysau a chyfleoedd allweddol. Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Hawlfreintiau**

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan drwydded Llywodraeth Agored

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordnans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

# Ffiniau arfordirol
# Cofrestr Adnoddau Naturiol
### Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Mae'r Cofrestrau Adnoddau Naturiol yn allbwn pwysig o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Eu pwrpas yw distyllu'r pwysau a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd yn y penodau a darparu asesiad hygyrch o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae cofrestr adnoddau naturiol y ffiniau arfordirol yn cynnwys dwy ddogfen ychwanegol:

1. SoNaRR2020 Cofrestr ffiniau arfordirol asesiad o SMNR
2. SoNaRR2020 Register coastal margins evidence

Tabl 1 Prif sbardunau, pwysau ac effeithiau ar Ecosystem y Ffiniau Arfordirol

| **Prif sbardunau** | **Pwysau** | **Effeithiau** |
|---|---|---|
| **Newid yn yr hinsawdd** | 1. Newid ym mhatrymau'r tywydd | 1.1. Rhagwelir y bydd yn arwain at golli ehangder yr ecosystemau o wasgfa arfordirol, mwy o lifogydd, erydu a difrod gan stormydd.<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.2. Mwy o risg i bobl, eiddo, seilwaith a thir amaethyddol, cynefinoedd daearol a dŵr croyw.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 3 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.3. Yn debygol o arwain at newidiadau i gyfansoddiad rhywogaethau a dosbarthiad cynefinoedd.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |

| Prif sbardunau | Pwysau | Effeithiau |
|---|---|---|
| **Newid yn yr hinsawdd** | 2. Cynnydd o ran lefel y môr | 2.1. Rhagwelir y bydd yn arwain at golli ehangder yr ecosystemau o wasgfa arfordirol, mwy o lifogydd, erydu a difrod gan stormydd.<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>2.2. Yn debygol o arwain at newidiadau i gyfansoddiad rhywogaethau a dosbarthiad cynefinoedd.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>2.3. Mwy o risg i bobl, eiddo, seilwaith a thir amaethyddol, cynefinoedd daearol a dŵr croyw.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 3 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Llygredd** | 3. Llygredd aer | 3.1. Dyddodion nitrogen ac amonia atmosfferig sy'n arwain at gynnydd mewn rhywogaethau glaswellt cystadleuol, olyniaeth gyflymach a cholli rhywogaethau arloesol, sy'n gallu gwrthsefyll straen ar dir agored.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Llygredd** | 4. Llygredd dŵr | 4.1. Mae lefelau maethynnau uchel a halogion cemegol yn niweidiol i weithrediad y system gyfan, ac i gyflwr cynefinoedd a rhywogaethau penodol. Mae'r effeithiau mwyaf yn ymwneud â lefelau maethynnau uwch mewn morlynnoedd ond mae morfeydd heli hefyd yn gysylltiedig â chyrff dŵr ag ansawdd dŵr gwael.<br>Asesiad hyder: ISEL<br>Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |

| Prif sbardunau | Pwysau | Effeithiau |
|---|---|---|
| **Newid yn nefnydd tiroedd** | 5. Dwysáu amaethyddol | 5.1. Colli cynefinoedd, darnio a dirywiad mewn cyflwr a bioamrywiaeth.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Newid yn nefnydd tiroedd** | 6. Rheoli annigonol | 6.1. Effeithio ar ehangder a chyflwr cynefinoedd arfordirol a bioamrywiaeth.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Newid yn nefnydd tiroedd** | 7. Datblygiad a seilwaith adeiledig | 7.1. Ar hyn o bryd mae pwysau datblygu yn ymwneud yn bennaf â hamdden a thwristiaeth, fel parciau carafanau a chyrsiau golff. Mae'r rhain yn arwain at golli cynefinoedd, darnio a chyfyngu ar y parth arfordirol a'r gefnwlad sy'n effeithio ar y potensial i adfer cynefinoedd. Mae ynni adnewyddadwy morol yn fygythiad.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Newid yn nefnydd tiroedd** | 8. Mynediad, chwaraeon a gweithgareddau hamdden heb eu rheoli | 8.1. Aflonyddwch ar rywogaethau e.e. adar sy'n nythu ar y ddaear.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>8.2. Gall sathru a defnyddio cerbydau arwain at erydu a dirywiad yn ehangder a chyflwr cynefinoedd.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Newid yn nefnydd tiroedd** | 9. Coedwigo Amhriodol Hanesyddol | 9.1. Colli cynefinoedd, cyfyngiadau i ddeinameg naturiol a cholli rhywogaethau.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |

| Prif sbardunau | Pwysau | Effeithiau |
|---|---|---|
| **Newid yn nefnydd tiroedd** | 10. Addasiadau ffisegol | 10.1. Atal gweithredu naturiol y cynefinoedd arfordirol deinamig sy'n hanfodol ar gyfer cynnal ehangder a chyflwr<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>10.2. Tarfu ar gyflenwadau gwaddod gan arwain at golli cynefinoedd ac ymyrraeth ar olyniaeth naturiol.<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Newid yn nefnydd tiroedd** | 11. Olyniaeth wedi'i gyflymu | 11.1. Colli cynefinoedd a rhywogaethau arloesol sy'n dibynnu ar dwyni tywod.<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefyd** | 12. Rhywogaethau estron goresgynnol | 12.1. Disodli rhywogaethau brodorol sy'n bygwth amrywiaeth ac yn gweithredu fel sefydlogwyr ar systemau twyni.<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |

* Cywasgu arfordirol: Lle na all cynefinoedd arfordirol fudo i mewn i'r tir, oherwydd presenoldeb amddiffynfa fôr, byddai codiad yn lefel y môr a mwy o erydu yn debygol o arwain at 'wasgfa arfordirol'

# Cyfleoedd i Weithredu

## Nod 1: Stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

**Cyflwyno addasiad arfordirol trwy ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur**

**Darparu amaethyddiaeth gynaliadwy.**Parhau i weithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir trwy ddarparu cymhellion a chymorth i sicrhau rheolaeth amaethyddol gynaliadwy.

**Amddiffyn, gwella ac adfer cynefinoedd ffiniau arfordirol** i wella gwytnwch. Cefnogi rheolaeth safle gwarchodedig i sicrhau cyflwr da ac adfer graddfa tirwedd i adfer ehangder, cyflwr, cysylltedd a bioamrywiaeth.

**Gwella dull rheoli dalgylch o’r ffynhonnell i’r môr** o safbwynt maethynnau, cemegolion a phathogenau.

## Nod 2: Ecosystemau gwydn

**Amddiffyn, gwella ac adfer cynefinoedd ffiniau arfordirol** i wella gwytnwch a diogelu gwasanaethau gan gynnwys amddiffyn rhag llifogydd yn naturiol a dal a storio carbon.

**Gellid lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd** trwy addasu arfordirol a gweithredu datrysiadau ‘seilwaith gwyrdd’ ar sail natur, yn unol â Chynlluniau Rheoli Traethlin.

**Mynd i'r afael ag ansawdd dŵr gwael.** Integreiddio ecosystemau morol a daearol trwy reoli parthau arfordirol integredig a Chynlluniau Rheoli Basn Afon.

**Mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael.** Cefnogi cyflwyno rhaglenni strategol, er enghraifft, y Cynllun Aer Glân a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i leihau a gwrthdroi gormodedd amonia ar lefel gritigol.

**Darparu amaethyddiaeth gynaliadwy.**Parhau i weithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir trwy ddarparu cymhellion a chefnogaeth i sicrhau rheolaeth amaethyddol gynaliadwy.

## Nod 3:  Lleoedd Iach i Bobl

**Ystyriwch sicrhau bod dyfarnu cymorthdaliadau ffermio yn dibynnu ar arfer amaethyddol da** a fydd o fudd i ansawdd aer a dŵr.

**Goresgyn yr her o reoli buddiannau gwrthgyferbyniol** nifer o randdeiliaid ar ffiniau arfordirol er mwyn sicrhau bod potensial lliniaru llifogydd cynefinoedd ffiniau arfordirol yn cael ei wireddu.

**Darparu amddiffyniad tymor hir digonol ar gyfer morfeydd heli presennol**

**Adfer cynefinoedd morfeydd heli i hybu dal a storio carbon.**

**Cyflawni addasiad arfordirol trwy ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur**

**Gwneud y mwyaf o gyfleoedd llesiant ar ffiniau arfordirol**

## Nod 4: Economi Atgynhyrchiol

**Darparu amaethyddiaeth gynaliadwy.** Parhau i weithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir trwy ddarparu cymhellion a chymorth i sicrhau rheolaeth amaethyddol gynaliadwy.

**Cyflwyno datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar yr arfordir.**